

## Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Megan Evans (Llansannan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd ers dechrau'r wythnos, a hefyd Morfudd Jones (Llanefydd gynt) sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Abergele ond bellach wedi cael dychwelyd adref. Mae Menna Streeter a Barbara Williams (Henllan) yn parhau'n yr Inffirmari, ac mae eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd hefyd ac angen ein gweddïau. Cyflwynwn hwy i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo eu hamgylchynnu â'i gariad a'i drugaredd. Gweddïwn y cânt oll adnabod nerth a chynhaliaeth Duw ei hun yn ddigon yn eu hamrywiol amgylchiadau.
- Dymuniadau gorau i Gwyneth Rawson a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig dydd lau nesaf!

## Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol

Llawenydd yw cael eich hysbysu inni dderbyn caniatâd Cymdeithasfa'r Gogledd i hysbysebu'r swydd Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol (hen swydd Aneurin) a hynny am gyfnod o dair blynedd. Diolchwn i'r Arglwydd ac i bawb am eu cefnogaeth. Bydd y swydd yn cael ei hysbysebu yn ystod y pythefnos nesaf.

## I ddod

- **Cwrs hyfforddiant i flaenoriaid ac aelodau eglwysi'r Henaduriaeth** yn Nhrefnant ar Orffennaf 6ed am 7.00. Y thema y tro hwn fydd 'Strwythur / Yr Oedfa'.
- Cynhelir **Cystadleuaeth Pêl-droed 5-bob-ochr** yng Ngherrigydrudion nos Lun, Gorffennaf 11eg. Bydd tair cystadleuaeth: Bl.2,3 a 4; Bechgyn Bl. 5+6; a Merched Cynradd. Enwau i Anne Lloyd (01490 420589) erbyn Gorffennaf 8fed.
- Bydd y cwrs **Souled Out**, sydd ar gyfer ieuenctid hŷn, yn cael ei gynnal yng Ngholeg y Bala, Awst 12fed-19fed. Mae'r Henaduriaeth yn cynnig cymhorthdal o hyd at 25% i bob unigolyn sydd am fynd ar y cwrs. I dderbyn y cymhorthdal, cysylltwch â Mair (870632) mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.

## Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 26<sup>ain</sup> Mehefin 2011

Cofiwch am y noson i wirio ffurflenni'r Biwro Cofnodion Troseddol (CRB) nos lau. Mwy o fanylion tros y dudalen.

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd – mae'n hyfryd cael cyfle newydd i addoli'n Harglwydd ac i ganmol ei gariad diderfyn tuag atom!

Sut olwg sydd ar yr ardd acw? Dyna un o'r cwestiynau gefais y dydd o'r blaen ar ôl cyfnod anghyffredin o dywydd oer. Poeni fod y tatws wedi cael rhew! A dyna'n wir oedd yr hanes, fel mewn sawl gardd arall. Y ffa hefyd wedi cael tipyn o glec a'r dail wedi melynau drwyddynt.

Rhyw gymysgedd o brofiadau sydd i'w gael mewn gardd. Fe fyddai'n ddiddorol gwybod pa un yw'r uchaf ar eich rhestr chi. Profiad o siom ydi'r rhai mwyaf cyfarwydd i mi(!), yn enwedig ar ôl mynd i drafferth – paratoi'r pridd, gwrteithio'n dda, plannu'n ofalus, aros am y glaw, dyfrio os na ddaeth glaw, gweld y planhigyn yn tyfu a chael pleser mawr o'i weld yn gwreiddio ac yn blodeuo. Ond yna'r fath siom! Gweld rhyw ddafad sydd wedi digwydd pasio ar ei hant yn cael pryd blasus o fwyd ar draul fy llafur i ac yn difetha'r cyfan! "Pryna giat!" rwy'n clywed rhai ohonoch yn ei ddweud ac mae'n siŵr y byddai hynny'n help. Y peth dwi'n methu ei ddeall ydi pwy sy'n dysgu'r defaid i anelu am fy hoff blanhigion, ac o lle gawsant y 'nac' fel rhyw chweched synnwyr o wybod sut i gael yr effaith fwyaf ar lefelau fy nhymer?!

Profiad arall y clywais gan eraill amdano yw pleser. Dyma brofiad y garddwyr gorau sydd â'u rhesi syth fel traffyrdd a dim chwynnyn yn agos i'r lle – a dweud y gwir, petai chwynnyn yn breuddwydio am drïo mentro i'r gerddi hyn, a dyfynnu Cassius Clay gynt, byddai'n rhaid iddynt ddeffro ac ymddiheuro! Ond y pleser o gael trefn a chael ffrwyth yn ei bryd, cael blas y tatws newydd, a chael pryd o fwyd iachus i'r teulu – dyna beth yw pleser.

Disgrifir yr eglwys fel gardd Crist (1 Cor.3:9). Dyma ardd i'w rhyfeddu. Mae cymysgedd o brofiadau yn hon hefyd. Dogn mawr o siom oherwydd ein bod yn byw mewn byd pechadurus a syrthiedig – yr egin ifanc yn methu gan y gwres neu gan yr oerni – chwyn yn tyfu i dagu'r tyfiant da – planhigion gorau yn cael eu bygwth gan y gelyn. Ond mae golwg arall ar ardd Crist hefyd. Hi ydi gardd bersonol Crist lle mae'n dymuno treulio amser a lle bydd yn cael pleser o fod ynddi (Caniadau Solomon 4). Yn yr ardd hon mae Crist yn agor y ffynhonnau dŵr – dŵr y bywyd – ac mae persawr Crist fel perlysiâu yn llenwi'r lle. Dyma hefyd fan hyfryd lle cawn ni orffwys a chael cwmni yr Arglwydd ei hun. Ceisiwn ei gwmni heddiw.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun lau
- Grwpiau **Adnabod** Aneurin ac Elen yn cyfarfod am 8.00.
  - Noson ar gyfer y rhai sy'n ymddiriedolwyr ac/neu'n wirfoddolwyr yn y gwahanol eglwysi i **wirio ffurflenni'r Biwro Cofnodion Troseddol (CRB)** yn Ffestri Groes rhwng 7.00 ac 8.00. Cofiwch y bydd angen dogfennau adnabod arnoch (gwelwch y rhestr ar gefn y daflen cyfarwyddiadau a gawsoch hefo'r ffurflen). Os byddwch angen unrhyw wybodaeth pellach, mae croeso i chi gysylltu â Carol neu Sian yn swyddfa'r Panel Diogelwch Cydenwadol (01745 817584 / pdpowen@aol.com).

Sul nesaf

## i-Grist

Oedfa'r bore i'r teulu cyfan, ond yn arbennig i blant holl eglwysi'r Ofalaeth, yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan

**am 10:30**

gyda

### Martyn Geraint (Cyflwynydd teledu)

Bydd y plant lleiaf hefyd yn canu fel un côr y penillion y bu iddynt ddysgu ar gyfer yr Arholiad Llafar. Ar ôl yr oedfa, byddwn yn mynd i'r Brenig i gael picnic ac i gymdeithasu. (Os na fydd y tywydd yn ffafriol, mae trefniadau wedi eu gwneud i fynd i'r Ganolfan yn Llansannan.)



## Oedfa o Fawl

Oedfa'r hwyr i holl eglwysi'r Ofalaeth yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan

**am 6:00**

Oedfa o fawl hefo'r gorau o'r hen a'r newydd hefo Steffan yn arwain y band. Dewch i fwynhau canu i'r Arglwydd gân o'r newydd!

## Cyhoeddiadau

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma
- Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma
- Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- lau
- Cinio'r Jangl am 12.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sadwrn
- Bore Coffi wedi ei drefnu gan aelodau Capel Peniel yn Eirianfa, Dinbych o 10 o'r gloch ymlaen. Tâl mynediad: £1

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma
- Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 2.00. Yn dilyn yr oedfa, cynhelir 'te mefus' i godi arian i'r bachgen bach sy'n cael ei noddi trwy World Vision gan aelodau Capel Henllan. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma
- Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yng Nghewn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghewn Berain a'r oedolion am 2.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:  
Mair - 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i  
Aneurin - 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.